# Monmouthshire Select Committee Minutes

**Pwyllgor Perfformiad a Throsolwg**
**Neuadd y Sir Brynbuga**
**Dydd Llun, 17eg Gorffennaf, 2023 10.00 am**

| Cynghorwyr yn Bresennol | Swyddogion yn Bresennol |
|---|---|
| Cynghorydd Sir Alistair Neill (Cadeirydd)<br><br>Cynghorydd Sir: Jill Bond, Paul Pavia, Peter Strong, Rachel Buckler, Catherine Fookes, Rachel Garrick, Angela Sandles, Tony Kear | Hazel Ilett, Rheolwyr Craffu<br>Robert McGowan, Swyddog Polisi a Chraffu<br>Peter Davies, Prif Swyddog, Adnoddau<br>Frances O'Brien, Prif Swyddog, Cymunedau a Lle<br>Will Mclean, Prif Swyddog Plant a Phobl Ifanc<br>Jane Rodgers, Pennaeth Gwasanaethau Plant<br>Matthew Gatehouse, Pennaeth Polisi a Llywodraethiant<br>Jonathan Davies, Rheolwr Cyllid Cyfrifeg Canolog<br>Nia Roberts, Welsh Language Officer<br>Stacey Jones, Uwch Gyfrifydd<br>Dave Loder, Rheolwr Cyllid<br>Tyrone Stokes, Rheolwr Cyllid<br>Nikki Wellington, Rheolwr Cyllid |

**Ymddiheuriadau:** Cynghorydd Sir: Laura Wright, Meirion Howells

1. **Datganiadau o Fuddiant**

   Datganodd y Cynghorydd Strong fuddiant nad oedd yn rhagfarnus fel Cadeirydd Cyfeillion Llyfrgell Cil-y-coed.

2. **Fforwm Agored i'r Cyhoedd.**

   Dim.

3. **Adroddiad Monitro Blynyddol y Gymraeg 2022-23 – Er mwyn craffu ar berfformiad y Cyngor o ran cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.**

   Cyflwynodd y Cynghorydd Sandles yr adroddiad. Atebodd Nia Roberts a Matthew Gatehouse gwestiynau'r aelodau.

   **Pwyntiau allweddol a godwyd gan Aelodau'r Pwyllgor**

   - A yw nifer y dysgwyr sy'n symud ymlaen o lefel mynediad yn bryder
   - A all yr aelodau cael eu hatgoffa o’r hyfforddiant a gawsant ym mis Mehefin 2022, ac a yw’r cyrsiau sydd ar gael i staff ar gael i aelodau, neu a oes hyfforddiant pellach i loywi cynghorwyr sy’n awyddus i ddal i fyny â dysgu Cymraeg

- Ar gyfer cwynion nad ydynt yn dod o fewn dyletswyddau'r Cyngor, a oes cyfrifoldeb serch hynny i sicrhau bod y partïon perthnasol yn ymdrin â nhw.
- Egluro'r costau a'r gyllideb sy'n gysylltiedig â chyrsiau, yr amserlen a'r costau a fyddai'n rhan o gynnal yr Eisteddfod, a'r broses ar gyfer cyfieithu ar y pryd.
- Beth fyddai'r goblygiadau wedi bod o weithio o fewn cyllideb benodol, fel y byddai busnes.
- Os yw'r rhesymau dros y cynnydd mewn dysgu eleni'n hysbys, sut y gellir annog dysgwyr i barhau trwy'r camau diweddarach, a gofynnwyd faint o'r uwch dîm arweinyddiaeth sydd wedi'u cofrestru ar gyfer cyrsiau.
- Gan ddeall yr effaith y byddai cynnydd yn nifer y cyrsiau yn ei chael ar y gyllideb, pa gyfran o'r cyllid y mae'r Cyngor yn ei derbyn (o ystyried ei fod yn ddyletswydd statudol gan Lywodraeth Cymru), a lefel yr ymgysylltiad â Llywodraeth Cymru i sicrhau y gallwn wneud ein dyletswydd statudol fel y mae wedi'i ysgrifennu.
- Defnyddioldeb arolwg sgiliau'r Gymraeg, ac a oedd tueddiadau yn yr ymatebwyr.
- A yw hysbysebion sy'n nodi'r Gymraeg yn 'Hanfodol' wedi cael effaith andwyol ar y niferoedd sy'n gwneud cais am swyddi, yn benodol, trigolion ardal Bryste ac aelodau o'r Lluoedd Arfog.
- Graddfa'r cyfranogiad yn Niwrnod Shwmae a'r cwmpas ar gyfer ehangu ei gyrhaeddiad
- Os bu ymarfer 'gwersi a ddysgwyd' ynghylch sut y dylid wedi ymdrin â chamau gorfodi Comisiynydd y Gymraeg, ac a oedd diffyg staff digonol ar y pryd yn ffactor.
- Gan nodi, gyda'r gostyngiad sydyn yn nifer y disgyblion sy'n astudio Ffrangeg ac Almaeneg ar lefel TGAU, bod yna bryderon yn y galluoedd iaith y mae disgyblion yn graddio â hwy, ac a yw'r pryder hwn yn cael sylw ar lefel ysgol

**Camau Gweithredu:**

- Cynghorydd Bond i anfon trwy'r rhestr o deipos a chywiriadau, i'w diwygio yn yr adroddiad – Jill Bond, Nia Roberts
- Darparu gwybodaeth am y gyllideb sydd ei hangen ac effaith cynnal yr Eisteddfod yn 2016 – Matt Gatehouse
- Darparu niferoedd y tîm Arwain Strategol sydd wedi cofrestru ar gyfer cwrs Cymraeg – Nia Roberts
- Darparu ymateb ysgrifenedig am y gwersi a ddysgwyd yn dilyn camau gorfodi'r Comisiynydd – Matt Gatehouse

**Crynodeb y Cadeirydd:**

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am yr adroddiad.  Cafodd yr argymhellion eu cytuno.

4. **<u>2023/24 Diweddariad Cynnar ar Gynnydd y Gyllideb Refeniw – craffu ar sefyllfa gyllidebol gwasanaethau sydd o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor</u>**

Cyflwynodd y Cynghorydd Garrick yr adroddiad. Atebodd Jonathan Davies, Frances O'Brien, Tyrone Stokes, Jane Rodgers, Will Mclean, Peter Davies a Matthew Gatehouse gwestiynau'r aelodau.

**Her:**

**Pwyntiau allweddol a godwyd gan Aelodau'r Pwyllgor**

- Gofynnwyd pam na fu'n bosibl lleihau'r defnydd o lety Gwely a Brecwast ar gyfer Digartrefedd
- A yw'r arbedion a ragwelir wrth gasglu Gwastraff Gwyrdd wedi ymddangos, a gofynnwyd pam fod angen y staff ychwanegol ar gyfer ei gasglu
- Deall ein sefyllfa a'n lefel o risg o ran gweithlu'r asiantaeth, yn enwedig staff gwaith cymdeithasol
- A ydym yn cydweithio ag awdurdodau cyfagos ar ddarparu lleoliadau, yn hytrach nag edrych ar ddarpariaeth asiantaeth ddrud
- O dan Wastraff, a yw'r £400 mil sy'n ymwneud â staff yn gost ychwanegol neu heb ei gyllidebu, ac a yw'n swm uchel i staff sy'n cyflenwi dros wyliau'r banc
- A yw'r gyllideb ar gyfer cynnal a chadw'r Fflyd wedi'i gosod yn anghywir, o ystyried nad yw'n ddigonol i gwmpasu'r fflyd gyfan
- Deall y rheswm dros oedi wrth weithredu arbedion costau
- O ran 'nifer sylweddol o gyfrifoldebau cynyddol wedi trosglwyddo i gynghorau', a oes nifer ar gyfer hynny, a gofyn beth yw'r pwysau ar ein cyllideb
- Deall y goblygiadau sydd gan y fenter Prydau Ysgol am Ddim ar y gyllideb, ac a yw Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu swm penodedig Yn ogystal, gofyn a yw gwerth maethol y prydau hyn yn cael ei oruchwylio a'i safoni ar draws y sir
- Gofyn am enghreifftiau penodol sy'n ymwneud â 'blaenwyntoedd ariannol', sy'n derm anfanwl
- A oes swyddi gwag yn cael eu llwytho ar staff, gan arwain at oedi, a nodwyd pryder am iechyd meddwl staff, os felly, gofynnwyd a oes modd i staff nodi os ydynt yn credu eu bod yn gweithio gormod o ddyletswyddau ychwanegol i gyflenwi ar gyfer swyddi gwag
- Gofyn pam mae'r Gronfa Datblygu Cwnsela wedi'i lleihau
- Os yw'r Cabinet o'r farn y dylai Cynghorwyr wneud mwy o weithgarwch o bell o ystyried y treuliau ychwanegol sy'n ddyledus i fwy o gyfarfodydd corfforol
- A oes hyblygrwydd i weithredu gweithgarwch gweithredol newydd os yw'r Cyngor yn penderfynu newid polisi yn ystod y flwyddyn
- Gofynnwyd sut y gellir dibynnu ar ragolygon y gyllideb pan nad yw'r arbedion arfaethedig yn cael eu gweld, ac i ba raddau y gall y Cyngor barhau i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn cyn gwneud newidiadau sylfaenol i ddarparu gwasanaethau

**Cam Gweithredu:**

- Egluro faint a chanran y gostyngiad yn y gyllideb ar lyfrau'r llyfrgell – Jonathan Davies

**Crynodeb y Cadeirydd:**

Rydym yn ddiolchgar am waith y swyddogion ac yn cydnabod y sefyllfa anodd y mae cynghorau'n ei hwynebu. Rydym yn pryderu am barhau i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn a'r cwestiynau y gallai trigolion ofyn yn rhesymol iddynt a fydd y Cyngor yn gwneud y mathau o newidiadau sydd eu hangen i ddarparu costau is - mae hyn yn rhywbeth y bydd angen i'r pwyllgor gadw ei ffocws arno.

Cafodd yr argymhellion eu cytuno.

5. **Cyfarfod Nesaf: Dydd Mercher yr 20fed o Fedi 2023 am 10.00am.**